# Sbwriel yn ymwneud ag Ysmygu

## Cadwch Gymru'n Daclus 2018

# Sbwriel yn ymwneud ag Ysmygu

Mae ysmygu yn dal i fod yn arferiad poblogaidd yng Nghymru. Am fod bonion sigaréts yn fudr, mae yna awydd i gael gwared ohonynt yn gyflym, a sbwriel sy'n ymwneud ag ysmygu (bonion sigaréts yn bennaf) ydy'r math mwyaf cyffredin o sbwriel sy'n bresennol ar ein strydoedd. Mae pobl Cymru yn ystyried y mater yn broblem.

Mae glanhau sbwriel yn ymwneud ag ysmygu yn costio trethdalwyr miliynau o bunnoedd bob blwyddyn. Dydy bonion sigaréts ddim yn pydru sy'n golygu eu bod yn aros yn yr amgylchedd am amser maith. Am eu bod yn fach eu maint, maent yn cael eu cludo'n hawdd, sy'n golygu eu bod yn cyrraedd ein dyfrffyrdd a'r arfordir yn y pendraw. Gallant lygru dŵr ac mae ganddynt botensial o fod yn angheuol i fywyd gwyllt. Mae bonion sigaréts yn trwytholchi gwenwyn. Gallant hefyd gael eu llyncu ar ddamwain. Yn ogystal, gallant achosi tanau. Mae canlyniadau difrifol ganddynt felly o ran ein hiechyd a'n lles.

Mae'r papur hwn yn archwilio i ymchwil ar sbwriel yn ymwneud ag ysmygu yn ogystal â'r dulliau niferus sydd wedi'u defnyddio wrth geisio taclo'r broblem. Mae'r rhain yn cynnwys cynwysyddion i waredu'r sbwriel mewn ffordd gyfrifol, ymdrechion i newid ymddygiad, addysgu ac ymgyrchu, mesuriadau deddfwriaeth a gorfodaeth yn ogystal â datrysiadau arloesol. Mae hefyd yn ystyried rôl y llywodraeth a'r diwydiant baco.

Mae'r papur yn cloi gyda chyfres o argymhellion er mwyn hysbysu polisi ac a ellir eu defnyddio er mwyn gweithredu'n ymarferol ac effeithiol. Er mwyn llwyddo i newid ymddygiad a gwneud taflu bonion sigaréts a chynhyrchion eraill sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn annerbyniol yn ein cymdeithas, rhaid i bob sector weithio gyda'i gilydd, ac mae gan gymdeithas rôl bwysig i chwarae.

Am gopi o'r adroddiad, cysylltwch â leq@keepwalestidy.cymru

**Jones, H. Cadwch Gymru'n Daclus, Gorffennaf 2018.**

**© Cadwch Gymru'n Daclus**